Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr

Primrose Hill
Llan San Siôr
Abergele
Conwy
LL22 9BU

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan mae'n ysgol â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 73 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 57 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 9 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 20.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | * |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/03/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu awyrgylch gofalgar sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol a pherthnasoedd cryf. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n glir â theuluoedd ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned trwy'r ffordd y mae disgyblion, staff a rhieni yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer yr ysgol ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu rôl yn helpu disgyblion i lwyddo. Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn wybodus am lawer o agweddau ar waith yr ysgol, er eu bod yn datblygu eu dealltwriaeth o ansawdd addysgu a dysgu o hyd.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n gwneud defnydd da o'r ardal leol ac yn rhoi profiadau dysgu cofiadwy i ddisgyblion. Oherwydd hyn, mae disgyblion o bob gallu, yn cynnwys y rhai sydd angen cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud o un dosbarth i'r llall.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i wersi sy'n eu hannog i feddwl a datblygu annibyniaeth gynyddol. Mae addysgu yn ddifyr ac mae iddo gyflymdra da. Mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth medrus i ddyfnhau dysgu, er nid ydynt yn cymhwyso'r dulliau hyn yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gyfathrebwyr hyderus sy'n siarad yn glir ac yn gwrando'n ofalus ar bobl eraill. Maent yn datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd cadarn ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau creadigol a digidol yn datblygu'n dda, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau mynegi eu hunain trwy gelf a cherddoriaeth. Er bod disgyblion yn dangos brwdfrydedd am ddysgu Cymraeg, nid yw llawer ohonynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith mewn sgyrsiau syml.

Mae lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn deall sut i aros yn ddiogel, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau oedran cymysg sy'n eu helpu i wneud ffrindiau. Mae "Senedd" yr ysgol yn rhoi llais i ddisgyblion, er bod staff yn gor-gyfarwyddo'r gwaith hwn. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu cymorth sy'n cael ei weddu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n eu helpu i wneud cynnydd tuag at eu nodau personol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod yr arferion addysgu mwyaf effeithiol yn cael eu rhannu a'u cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol

A2 Gwella hyder a rhugldear disgyblion mewn Cymraeg llafar

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn helpu creu diwylliant cynhwysol lle mae oedolion yn adnabod disgyblion yn dda ac yn eu helpu i deimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio’n glir. Mae cyfathrebu rheolaidd yn hysbysu rhanddeiliaid yn dda ac yn cyfrannu at ymdeimlad cryf yr ysgol o berthyn.

Mae athrawon a staff cymorth yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer cyflwyno cwricwlwm cyfoethog a pherthnasol sy’n adlewyrchu cymeriad unigryw’r ysgol ac yn defnyddio’r gymuned leol yn bwrpasol. Mae profiadau dysgu wedi eu cynllunio’n dda ac yn ddilys, gan ennyn ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n cael eu heffeithio gan dlodi neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn unigol.

Mae staff yn sefydlu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol ac yn meithrin perthnasoedd cryf â disgyblion. Mae’r ethos hwn yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i fynychu’n rheolaidd, ymddwyn yn dda a chymryd rhan yn ystyrlon mewn gwersi. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn aml yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu heriau mwy cymhleth.

Mae addysgu yn effeithiol, ar y cyfan. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu cyflymdra addas ac yn gwneud defnydd buddiol o amrywiaeth o adnoddau. Maent yn holi disgyblion yn fedrus, sy’n eu helpu i adeiladu ar ddysgu blaenorol a datblygu eu meddwl a’u hannibyniaeth mewn amgylcheddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Mae athrawon yn rhoi adborth manwl gywir, wedi’i amseru’n dda sy’n helpu disgyblion i ddeall eu camau nesaf. Yn yr achosion prin lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, nid yw pob un o’r disgyblion yn cael eu herio ar lefel sy’n cynnal eu hymgysylltiad neu’n dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen sicrhau bod yr arferion addysgu mwyaf effeithiol yn cael eu rhannu a’u cymhwyso’n gyson ar draws yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Maent yn dod yn siaradwyr a gwrandawyr hyderus, gan ddefnyddio geirfa sy’n gynyddol fentrus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae medrau darllen yn datblygu’n dda, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar brofiadau sy’n gyfoethog o ran iaith, sy’n eu cynorthwyo i ddod yn ddarllenwyr rhugl a mynegiannol wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n effeithiol, hefyd. Mae disgyblion iau yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau creu marciau, tra bod disgyblion hŷn, yn

enwedig y rhai sy'n fwy abl, yn defnyddio iaith soffistigedig i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.

Trwy addysgu effeithiol a darpariaeth wedi'i chynllunio'n dda, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn gywir ac yn hyderus. Maent yn meithrin dealltwriaeth gadarn o rif, ac yn defnyddio ystod o ddulliau ysgrifenedig, pan fo'n briodol, i ddatrys problemau'n llwyddiannus. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhesymu cadarn ac yn cymhwyso'u rhifedd yn fedrus mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd dilys.

Trwy addysgu pwrpasol a defnydd effeithiol o adnoddau, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod eang o gymwysiadau i ymestyn eu dysgu ac yn cymryd rhan mewn tasgau creadigol a chydweithredol. Yn ogystal, mae'r ysgol  yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion eraill ar brosiectau pwrpasol mewn celf, drama a cherddoriaeth sy'n cefnogi eu hunanfynegiant a'u gwaith tîm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol trwy wersi a chwarae egnïol. Maent yn deall sut i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw ac yn elwa ar ystod addas o gyfleoedd allgyrsiol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'u treftadaeth ddiwylliannol trwy wasanaethau a digwyddiadau cymunedol. Er gwaethaf hyn, nid yw hyder a rhuglder disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sgyrsiau bob dydd wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cryf ac archwilio'u credoau ysbrydol a moesol. Mae disgyblion yn dysgu am gydraddoldeb, hawliau a thegwch, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd trin pawb mewn cymdeithas â pharch. Mae'r cyfleoedd hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth ac yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gydweithredu'n effeithiol â'i gilydd.

Trwy addysgu effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol personol yn effeithiol a sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfrifoldebau sydd ganddynt drwy gyngor "Senedd" yr ysgol. Maent yn cyfrannu at addoli ar y cyd ac wedi dylanwadu ar bolisïau fel ymagwedd yr ysgol at chwarae. Er bod y gwaith hwn yn fuddiol, caiff gwaith y grŵp ei or-gyfarwyddo gan oedolion. Mae hyn yn atal datblygiad medrau arwain disgyblion.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gydweithio a gweithio gyda disgyblion eraill yn meithrin ymdeimlad disgyblion o berthyn ar draws yr ysgol. Mae diwrnodau cydweithredu rheolaidd yn creu rhyngweithio cadarnhaol rhwng disgyblion o wahanol oedrannau, ac

mae disgyblion hŷn yn cefnogi plant iau yn sensitif. Mae disgyblion hŷn yn archwilio dyheadau gyrfa yn y dyfodol trwy weithgareddau difyr fel creu proffiliau "swydd fy mreuddwydion" ac archwilio slipiau cyflog. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i feithrin dealltwriaeth realistig o fyd gwaith.

### Ciplun: Meithrin medrau ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Mae amrywiaeth o weithgareddau dilys yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn ehangach ac yn meithrin dyheadau uchel ar gyfer y dyfodol. Trwy gymryd rhan mewn tasgau pwrpasol, fel dadansoddi dogfennau ariannol go iawn a disgrifio'r medrau sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd penodol, mae disgyblion yn cryfhau eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi disgyblion hŷn i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a'u gwaith yn y dyfodol, gyda hyder cynyddol.

Mae trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae staff yn adnabod y disgyblion hyn yn dda ac yn defnyddio partneriaethau buddiol ag asiantaethau allanol. Maent yn defnyddio grwpio yn hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion unigol. Mae gweithdrefnau olrhain effeithiol yn helpu staff i nodi disgyblion sydd angen ymyriadau targedig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae trefniadau pontio, ar gyfer disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol a'r rhai sy'n symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg, yn cael eu rheoli'n ystyriol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso a gwella addas sy'n canolbwyntio'n briodol ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff wedi gwella agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol fel defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr wedi datblygu hanes da o adolygu a datblygu agweddau pwysig ar eu darpariaeth. Er enghraifft, mae gwelliannau i ddiogelwch y safle wedi cryfhau diwylliant diogelu cadarn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn ymroddgar ac yn wybodus am lawer o agweddau ar waith yr ysgol, yn cynnwys cynnydd tuag at flaenoriaethau allweddol fel gwella presenoldeb a mireinio'r cwricwlwm. Mae datblygu eu rôl mewn gwerthuso tystiolaeth uniongyrchol i ennill dealltwriaeth gywir o ansawdd addysgu a dysgu ar gam datblygu cynharach. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn ddarbodus a chyllid grant yn synhwyrol i ddarparu cymorth targedig ar gyfer llythrennedd a lles.

Mae partneriaethau allanol yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion ac yn cryfhau rôl yr ysgol o fewn y gymuned. Mae cysylltiadau cryf â'r eglwys leol yn datblygu ymdeimlad disgyblion o ddinasyddiaeth, tra bod cydweithio ag ysgolion y clwstwr wedi cefnogi datblygiad system olrhain gyson i asesu cynnydd disgyblion. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r

cysylltiadau hyn, ynghyd â staff agos-atoch a pholisi drws agored yr ysgol, sy’n cyfrannu at ymdeimlad disgyblion o sefydlogrwydd a hapusrwydd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026